Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

## Sesiwn am y diweddaraf ar yr UE

Papur briffio

| Dyddiad y sesiwn: | 16 Mai 2013 |
|---|---|

Lluniwyd y papur briffio hwn gan Gregg Jones, Pennaeth **Swyddfa'r UE** i'w ddefnyddio gan y Pwyllgor Menter a Busnes. Mae'n dilyn papurau briffio blaenorol i'r Pwyllgor ar ddatblygiadau perthnasol ar lefel yr UE dros y 12 mis diwethaf (gan gynnwys RS121450 – cyfarfod 14 Mehefin 2012; RS122467 a RS122390 – y ddau ar gyfer cyfarfod 27 Medi 2012; RS130161 – 24 Ionawr 2013.)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gregg Jones:
Rhif ffôn 0032 2 226 6692
E-bost: Gregg.Jones@cymru.gov.uk

Cynnwys

1. Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2014-2020 ... 3
1.1. Trafodaethau tairochrog ... 3
1.2. Pwyllgor y Rhanbarthau ... 4
2. Cynigion Cronfeydd Strwythurol yr UE ... 5
2.1. Y sefyllfa gyda'r trafodaethau tairochrog ... 5
2.2. Trafodaethau/paratoadau ar lefel y DU ... 6
2.3. Paratoadau yng Nghymru ... 6
3. Horizon 2020 ... 7
4. Diweithdra ymysg ieuenctid ... 7
5. Argyfwng Ardal yr Ewro, diwygio llywodraethu economaidd, Undeb Bancio ... 8
6. Caffael Cyhoeddus ... 11
7. **Datblygiadau eraill a gynlluniwyd ar gyfer 2013 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor** ... 12

# 1. Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2014-2020

## *1.1. Trafodaethau tairochrog*

Mae'r trafodaethau ynghylch y Fframwaith Ariannol Amlflwydd (MFF) ar gyfer 2014-2020 yn rhoi'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer y trafodaethau thematig eraill a'r trafodaethau sy'n seiliedig ar raglenni gan gynnwys, wrth gwrs, y Cronfeydd Strwythurol a Horizon 2020.

Nododd y Cyngor Ewropeaidd ei safbwynt ar 8 Chwefror gyda chytundeb ymysg Aelod-wladwriaethau ar y terfynau cyllideb cyffredinol (taliadau ac ymrwymiadau)[1]. Mae'r cytundeb yn golygu toriadau i'r fframwaith arfaethedig ar gyfer 2014-2020, gyda'r terfyn ar gyfer 'ymrwymiadau' yn cael ei ostwng i €960 biliwn (cynnig y Comisiwn Ewropeaidd oedd €1033 biliwn), a thaliadau yn gostwng i €908.4 biliwn (i lawr o €988 biliwn).

Mae ad-daliad y DU wedi cael ei ddiogelu, fel y mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, sy'n gweld toriad o tua €14 biliwn o'i gymharu â chynigion gwreiddiol y Comisiwn Ewropeaidd. Cafodd y Cronfeydd Strwythurol eu lleihau i €325 biliwn (tua €30 biliwn yn llai nag ar gyfer cyfnod 2007-2013), er bod y bensaernïaeth (Ardaloedd Llai Datblygedig, Rhanbarthau Trawsnewid ac Ardaloedd Mwy Datblygedig) yn parhau yn ddigyfnewid. Yn ystod y trafodaethau, gwelwyd y toriadau mwyaf yng Nghyfleuster Cysylltu Ewrop (sef arian i gefnogi rhwydweithiau trafnidiaeth, ynni a TGCh ar lefel yr Undeb Ewropeaidd), sy'n gostwng o'r €50 biliwn, a gynigiwyd yn wreiddiol, i €29 biliwn.

Cytundeb ymysg yr Aelod-wladwriaethau yn unig oedd y cytundeb ar 8 Chwefror. Er mwyn i'r Fframwaith Ariannol Amlflwydd ddod i rym, rhaid cael cytundeb gyda Senedd Ewrop hefyd (a'r Comisiwn Ewropeaidd).

Roedd safbwynt gwreiddiol Senedd Ewrop yn gwbl groes i'r Cyngor Ewropeaidd, gan alw am gynnydd i gynigion gwreiddiol y Comisiwn Ewropeaidd. Nid yw ei barn mor gryf bellach o ran egwyddorion y toriadau, gyda Senedd Ewrop yn gwrthod cytundeb y Fframwaith Ariannol Amlflwydd yn y cyfarfod llawn ym mis Mawrth heb herio maint arfaethedig y Fframwaith Ariannol Amlflwydd a fabwysiadwyd gan Gyngor Ewrop. Fodd bynnag, symudodd pwyslais y penderfyniad a fabwysiadwyd gan Senedd Ewrop ar 13 Mawrth tuag at 'pedair llinell goch', fel y sail ar gyfer trafodaethau â'r Cyngor[2]:

- Cymal adolygu cynhwysfawr a gorfodol i'w gyflwyno (yn gofyn am adolygiad o gyllideb yr UE gyfan yn ystod cyfnod y Fframwaith Ariannol Amlflwydd)
- **Cytundeb i ddiwygio ei hadnoddau ei hun yn fanwl ar gyfer cyllidebau'r UE yn y** dyfodol
- Cyflwyno hyblygrwydd rhwng penawdau cyllideb (er mwyn galluogi i danwariant mewn un rhan o'r gyllideb gael ei drosglwyddo i rannau eraill o gyllideb yr UE, yn hytrach na'i fod yn cael ei ddychwelyd yn awtomatig i'r Aelod-wladwriaethau ar ddiwedd bob blwyddyn).
- Mynnu ar yr egwyddor o undod cyllideb yr UE, gan ofyn am ddatganiad bob blwyddyn yng nghyllideb ddrafft yr UE yn crynhoi pob gwariant a refeniw sy'n deillio o

[1] Gweler http://www.consilium.europa.eu/special-reports/mff

[2] Gweler http://www.europarl.europa.eu/sides/getDoc.do?pubRef=-//EP//TEXT+TA+P7-TA-2013-0078+0+DOC+XML+V0//EN

benderfyniadau a wnaed gan sefydliadau'r UE, neu yn enw sefydliadau'r UE, gan gynnwys benthyca, benthyg a gwarantu benthyciadau.

Yr elfen arall yn safbwynt Senedd Ewrop yw gofyniad, fel rhag-**amod i ddechrau'r** trafodaethau gyda'r Cyngor, y dylid mynd i'r afael â'r 'diffyg ariannol' parhaus yng nghyllideb yr UE a'i ddatrys yn y trafodaethau ar gyllideb ddiwygiedig ddrafft ar gyfer 2013, drwy ddyrannu swm ychwanegol o €11 biliwn (yr uchafswm a ganiateir) er mwyn cyflawni ymrwymiadau o gyllideb yr UE ar gyfer 2013. Mae hyn yn uniongyrchol berthnasol i Gymru, gydag effaith bosibl ar Gronfeydd Strwythurol a thaliadau PAC ar gyfer 2013 (yn ogystal â thaliadau i sefydliadau o Gymru o dan raglenni eraill yr UE) os nad oes digon o arian o fewn cyllideb flynyddol yr UE i dalu am yr ymrwymiadau sy'n bodoli eisoes.

Hyd at yr wythnos diwethaf, roedd y trafodaethau â'r Cyngor wedi dod i ben, yn benodol oherwydd nad oedd y Cyngor yn cytuno â'r rhag-amod ar drafodaethau Cyllideb yr UE 2013. Mae hyn wedi'i ddatrys bellach yn dilyn cyfarfod ar 6 Mai rhwng Taoiseach Enda Kenny ar ran Llywyddiaeth Iwerddon o'r Cyngor, Llywydd Senedd Ewrop, Martin Schulz, ac Arlywydd y Comisiwn Ewropeaidd, José Manuel Barroso[3].

Nododd Llywyddiaeth Iwerddon o'r UE ei bod yn parhau i geisio cael cytundeb gwleidyddol ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd erbyn diwedd ei Llywyddiaeth (sef diwedd mis Mehefin), er mae'n bosibl na fyddai cytundeb ffurfiol tan yr hydref.

Bydd hyn yn effeithio ar ddyddiadau dechrau'r rhaglenni, gan nad yw'n bosibl casglu'r cynigion deddfwriaethol ar gyfer y gwahanol ffrydiau ariannu tan y bydd y Fframwaith Ariannol Amlflwydd wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol. Gwelwyd goblygiadau hyn yn barod o ran diwygio'r PAC, gan fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cyflwyno mesurau pontio er mwyn galluogi cynnal y fframweithiau cyfreithiol cyfredol (ar gyfer 2007-2013) hyd at ddiwedd 2014, ac i ddeddfwriaeth diwygio'r PAC ddod i rym o 2015.

## *1.2. Pwyllgor y Rhanbarthau*

Mae Rhodri Glyn Thomas AC, yn ei swydd fel cynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, wedi ysgrifennu dau adroddiad sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor Menter a Busnes dros yr wyth mis diwethaf[4]:

- barn ar 'greu gwell synegerdd rhwng cyllideb yr UE a chyllidebau cenedlaethol ac is-genedlaethol': a fabwysiadwyd gan gyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ar 31 Ionawr gyda chefnogaeth drawsbleidiol (un bleidlais yn erbyn)
- ar wahoddiad Llywyddiaeth Iwerddon o'r UE, llunio barn ar Synergeddau rhwng buddsoddi preifat ac ariannu cyhoeddus ar lefelau lleol a rhanbarthol – partneriaethau ar gyfer twf economaidd a ffyniant: a fabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ar 11 Ebrill gyda chefnogaeth drawsbleidiol a phleidlais unfrydol

Cyflwynodd Rhodri y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn i'r Pwyllgor Cyllid ar 30 Ionawr 2013[5].

---

[3] Gweler **datganiad i'r wasg Senedd Ewrop**

[4] Mae'r ddau adroddiad ar gael drwy ddilyn y linc ganlynol: https://toad.cor.europa.eu/CORWorkInProgress.aspx

Gwaith dilynol:

- Cynhadledd ym Mrwsel (13 Mai): Cadeirio sesiwn banel ar ei farn
- Cynhadledd yng Ngwlad Pwyl (3-4 Mehefin): penodi Llywydd newydd Pwyllgor y Rhanbarthau
- Gwahoddiad i'r Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd ym Merthyr, 1 Gorffennaf 2013

## 2. Cynigion Cronfeydd Strwythurol yr UE

### *2.1. Y sefyllfa gyda'r trafodaethau tairochrog*

Lansiwyd y trafodaethau tairochrog ar reoliadau'r Cronfeydd Strwythurol yn hydref 2012.

Mae nifer o faterion wedi'u datrys yn ystod y trafodaethau, ond mae nifer o'r materion eraill yn parhau – mae rhai yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r trafodaethau ar y gyllideb, a'r cytundeb terfynol ar ddyrannu'r Cronfeydd Strwythurol.

Daeth Senedd Ewrop a'r Cyngor i gytundeb ar 19 Rhagfyr ar gyfres o erthyglau yn ymwneud â "rhaglennu strategol", gan gynnwys yr egwyddorion ynghylch y cytundeb partneriaeth, cod ymddygiad a rhaglennu. Roeddent hefyd yn cytuno ar bensaernïaeth gyffredinol y polisi yn y dyfodol, gan gadw'r tri chategori rhanbarth: Llai Datblygedig (llai na 75% o CMC cyfartalog yr UE); Trawsnewid (>75% a <90%); Mwy Datblygedig (>90%).

Galluogodd hyn y Comisiwn Ewropeaidd i gyhoeddi canllawiau ym mis Ionawr 2013 ar gyfer y Cytundebau Partneriaeth ac ar gyfer y Rhaglenni Gweithredu. Bydd y 'cod ymddygiad' arfaethedig ar gyfer y bartneriaeth yn cael ei ffurfioli, wedi'i ymgorffori yn rhan o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y cynigion cronfeydd strwythurol newydd.

Mae nifer o faterion yn parhau heb eu datrys y mae Llywyddiaeth Iwerddon o'r UE yn gobeithio cytuno arnynt cyn diwedd mis Mehefin.

Mae Llywyddiaeth Iwerddon yn ceisio cwblhau'r trafodaethau tairochrog erbyn diwedd ei Llywyddiaeth (diwedd mis Mehefin) er gallai unrhyw oedi yn nhrafodaethau'r Fframwaith Ariannol Amlflwydd, fel yr amlinellir uchod, effeithio ar yr amserlen hon, a rhaid aros i weld a fyddant yn gallu dod i gytundeb ar yr elfennau sydd heb eu datrys yn nhrafodaethau'r Cronfeydd Strwythurol erbyn diwedd mis Mehefin (er enghraifft roedd y Pwyllgor REGI yn beirniadu proses y trafodaethau tairochrog yn ei gyfarfod ar 23 Ebrill).

Mae dau gyhoeddiad a nodwyd yn rhaglen waith dreigl y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2013 yn berthnasol i'r trafodaethau hyn:

- Cyfathrebiad ar "Y Cronfeydd Fframwaith Strategol Cyffredin a llywodraethu economaidd yr UE" (Hydref 2013)
- Mabwysiadu'r cytundebau partneriaeth ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod 2014-2020 (Tachwedd 2013)

[5] Gweler Trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid 30 Ionawr 2013

## *2.2. Trafodaethau/paratoadau ar lefel y DU*

Ar 26 Mawrth nododd Llywodraeth y DU ei chynlluniau ar gyfer dosbarthu dyraniad y DU o Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020, gan gyhoeddi y byddai Cymru yn cael tua €2.145 biliwn o'r €11 biliwn y byddai'r DU yn ei gael o dan y cytundeb a gafwyd yn y Cyngor Ewropeaidd ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd ar 8 Chwefror.

Mae hyn yn cymryd, wrth gwrs, y llwyddir dod i gytundeb â Senedd Ewrop sy'n cadw'r meini prawf ar gyfer rhannu arian rhwng Aelod-wladwriaethau a lefelau'r arian y cytunwyd arnynt gan Benaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau'r UE. Mae'r dyraniad i Gymru yn cynnwys addasiad o €375 miliwn ychwanegol i'r swm y byddai Cymru wedi ei gael pe byddai meini prawf llym yr UE wedi cael eu cymhwyso i ddyraniadau o fewn y DU. O dan gytundeb y Fframwaith Ariannol Amlflwydd (a rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol) mae gan Aelod-wladwriaethau beth hyblygrwydd i addasu dosraniad yr arian i ranbarthau o fewn eu tiriogaethau. Mae'r cyfanswm yn cynrychioli lleihad o tua 5% i ddyraniadau 2007-2013, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i lobïo i geisio lleihau'r toriad hwn ymhellach.

Mae'r paratoadau ar gyfer 'Cytundeb Partneriaeth' ar lefel y DU yn mynd rhagddynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddrafftio 'pennod Cymru' i'r Cytundeb Partneriaeth hwn. Yn yr un modd, mae'r paratoadau ar gyfer y Rhaglenni Gweithredu yn y dyfodol yn parhau (gweler yr adran nesaf).

## *2.3. Paratoadau yng Nghymru*

Ym mis Gorffennaf 2012, lansiodd y Dirprwy Weinidog adolygiad o'r trefniadau ar gyfer rhoi rhaglenni cyllid yr UE ar waith yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2014-2020, a wnaed gan Dr Grahame Guilford, aelod o Bwyllgor Monitro Rhaglen y Cronfeydd Strwythurol. Cyflwynodd Dr Guilford ei adroddiad ym mis Mawrth 2013. Mae'r Gweinidog Cyllid, sydd wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb ar gyfer rheoli'r Cronfeydd Strwythurol (a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) yn bwriadu cyflwyno datganiad mewn ymateb i'r adolygiad ar 14 Mai 2013 (nid oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r papur cefndir hwn).

Hefyd, sefydlodd Llywodraeth Cymru Bartneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd yn hydref 2011 i arsylwi'r gwaith o baratoi rhaglenni yn y dyfodol, a chadeirydd y corff hwn bellach yw Ken Skates AC (sy'n cymryd lle Mark Drakeford AC ar ôl ad-drefnu'r cabinet ym mis Mawrth). Ken yw Cadeirydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan hefyd.

Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar raglenni Cronfeydd Strwythurol y dyfodol 2014-2020 ym mis Ionawr, a'r dyddiad cau ar gyfer yr ymatebion oedd 23 Ebrill[6]. Cafwyd 125 o ymatebion, a hynny mewn perthynas â rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a rhaglen Dwyrain Cymru, ac a oedd wedi'u rhannu fel a ganlyn: sector preifat 17; addysg bellach/addysg uwch 18; sector cyhoeddus 42; trydydd sector 36; eraill 12. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi ymgynghorydd annibynnol i ddadansoddi'r ymatebion, a bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dadansoddiad hwnnw i gyhoeddi ei hymateb erbyn mis Gorffennaf. Bydd hyn yn sail ar gyfer paratoadau terfynol y Rhaglenni Gweithredu 2014-2020 drafft, y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis

[6] http://cymru.gov.uk/consultations/businessandeconomy/130114walesandtheeu/?lang=cy

Hydref eleni, er gallai'r amserlen hon newid yn dibynnu ar ganlyniadau trafodaethau ar lefel yr UE ar y pecyn deddfwriaethol.

O ran 'arbenigo deallus', sef un o'r amodau a gynigiwyd gan y Comisiwn ar gyfer y Cronfeydd CSF, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ym mis Ebrill (hyd nes canol mis Gorffennaf), yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar yr hyn sydd ei angen yn Strategaeth Arloesi Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ymatebion ac mae'n bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn yn yr hydref, a fydd yn destun ymgynghoriad allanol, yn nodi ei barn ar sut y gallai strategaeth o'r fath edrych.

David Rosser (cyn Gyfarwyddwr CBI Cymru) sy'n arwain y gwaith hwn yn rhinwedd ei swydd yn yr adran Menter, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru. Mae grŵp cylch a gorchwyl allanol yn helpu Llywodraeth Cymru gyda'r broses hon, a chaiff ei gyd-gadeirio gan yr Athro Kevin Morgan a Dr Adrian Healy (sydd ill dau yn ymgynghorwyr i'r Comisiwn Ewropeaidd yn y maes hwn).

## 3. Horizon 2020

Mae'r cynigion deddfwriaethol (chwe darn o ddeddfwriaeth) wrthi'n cael eu trafod yn y Cyngor a Senedd Ewrop mewn trafodaethau tairochrog. Bwriedir cynnal y trafodaethau hyn tan ddiwedd Llywyddiaeth Iwerddon, ac mae Senedd Ewrop wedi gosod mis Medi fel targed ar gyfer darlleniad cyntaf o'r pecyn, gan dybio y bydd cytundeb yn cael ei wneud yn y trafodaethau tairochrog.

Gall oedi yn y trafodaethau ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd effeithio ar hyn, er yr argraff gyffredinol yw y bydd Horizon 2020 yn cael tua €70 biliwn (sef y ffigur y mae llawer yn ei ddyfynnu ar ôl cytundeb y Cyngor Ewropeaidd yn Chwefror, er na wnaeth y casgliadau nodi swm penodol ar gyfer Horizon 2020).[7]

Ar hyn o bryd, mae'n anodd dweud pryd fydd y galwadau cyntaf o Horizon 2020 yn cael eu cyhoeddi. Gan y bydd y rhaglenni yn cael eu rheoli'n ganolog o Frwsel gallai hyn, mewn egwyddor, olygu bod llai o debygrwydd y bydd oedi o gymharu â'r rhaglenni a gaiff eu rheoli a'u gweithredu ar lefel Gwladwriaethau ac is-Wladwriaethau. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn parhau â'i waith paratoi cefndirol i fod yn barod ar gyfer y rhaglenni gwaith amrywiol a ddisgwylir a'r ffrydiau gwaith ar gyfer Horizon 2020, yn seiliedig ar destunau drafft.

## 4. Diweithdra ymysg ieuenctid

Mae'r her o fynd i'r afael â'r broblem fawr a chynyddol o ddiweithdra ymysg ieuenctid yn yr UE yn flaenoriaeth bennaf yn yr agenda wleidyddol ac economaidd yn yr UE. Nifer y bobl ifanc ddi-waith oedd 5.67 miliwn ym mis Mawrth 2013, sef cyfartaledd o dros 23% ledled yr EU, ac roedd yn agosáu at 60% mewn nifer o Aelod-wladwriaethau (gan gynnwys Sbaen a Gwlad Groeg). Mae'r lefel yn y DU dros 20% tra bo diweithdra ymysg ieuenctid yng Nghymru dros 23% [8]

---

[7] Gweler y cyfweliad â rapporteur Senedd Ewrop http://www.earto.eu/european-news/detail/article/interview-with-maria-da-graca-carvalho-mep.html

[8] Gweler http://europa.eu/rapid/press-release_STAT-13-70_en.htm a data diweithdra Ystadegau Cymru

Ym mis Mawrth, cytunodd y Gweinidogion Cyflogaeth yn y Cyngor ar Argymhelliad ar gyfer Gwarant Ieuenctid ar lefel yr UE sef addewid y caiff pobl ifanc o dan 25 oed sy'n colli eu gwaith neu sy'n methu â chael hyd i waith ar ôl gadael y system addysg, gynnig gwaith o safon, parhau â'u haddysg, neu gael prentisiaeth neu hyfforddiant yn sydyn.

Bydd diweithdra ieuenctid yn un o'r prif bynciau i Benaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau'r UE yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mehefin, ac roedd hefyd yn bwnc amlwg yn Uwchgynhadledd yr UE ar 7-8 Chwefror, lle cafwyd cytundeb i greu Menter Gwarant Ieuenctid, gyda €6 biliwn o arian yr UE (€3 biliwn o'r gyllideb ganolog a €3 biliwn o arian yr ESF a neilltuwyd) o dan y Fframwaith Ariannol Amlflwydd ar gyfer 2007-2013, gan ganolbwyntio ar ddarparu cymorth ariannol yr UE i fynd i'r afael â diweithdra ymysg ieuenctid.

Yn dilyn y Cyngor Ewropeaidd, cyflwynodd y Comisiwn Ewropeaidd fanylion pellach am y fenter arfaethedig, gan gynnwys gwelliannau drafft i'r rheoliadau Cronfeydd Strwythurol, gan nodi'r ESF fel un o'r prif ffyrdd y byddai'r Fenter Gwarant Ieuenctid yn cael ei gweithredu ar lawr gwlad. Cynigiodd y Comisiwn Ewropeaidd uchafswm oed o 25 a throthwy o 25% o ddiweithdra ymysg ieuenctid ar lefelau NUTS II er mwyn i ranbarthau fod yn gymwys.[9]

Rhaid i Senedd Ewrop gefnogi'r newidiadau arfaethedig, a thrafododd y Pwyllgor Cyflogaeth a Materion Cymdeithasol y drafft yn ei gyfarfod ym mis Ebrill a chynigiodd nifer o welliannau, gan gynnwys codi'r uchafswm oed i 30 oed a lleihau'r trothwy diweithdra i 20%. Mae'r Cyngor a'r Senedd yn ceisio dod i gytundeb darlleniad cyntaf ar y cynigion dros y misoedd i ddod[10].

Un o'r materion i Gymru fydd lobïo ar y meini prawf arfaethedig i bennu pa ranbarthau fydd yn gymwys i gymryd rhan. Byddai'r newidiadau arfaethedig gan Senedd Ewrop yn arwyddocaol gan y byddai'n cynyddu ystod y buddiolwyr posibl, a gallai hynny olygu y gall Cymru gymryd rhan yn y fenter.

## 5. Argyfwng Ardal yr Ewro, diwygio llywodraethu economaidd, Undeb Bancio

Dros y 3-4 mlynedd diwethaf yn arbennig, cafwyd nifer fawr o ddeddfwriaeth yn y gwasanaethau ariannol a'r sector bancio, sy'n ceisio cyflwyno fframwaith rheoleiddio cryfach i fynd i'r afael â rhai o'r achosion canfyddedig o'r argyfwng ariannol ac economaidd. Bu ymgais hefyd i gryfhau gwaith llywodraethu economaidd Ardal yr Ewro (a'r UE yn ehangach), o fewn cyd-destun y pecynnau achub ariannol a roddwyd at ei gilydd ar gyfer gwledydd unigol (e.e. Gwlad Groeg, Portiwgal, Iwerddon) gan gynnwys gwarantau'r UE a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol sy'n ceisio osgoi dinistr ariannol, ac sydd, mewn amser, wedi symud at ddull strwythurol a mwy hirdymor o ddiwygio'r Undeb Economaidd ac Ariannol (EMU).

Y Semester Ewropeaidd oedd un o'r prif fesurau, a gytunwyd yn 2010 (ac a gyflwynwyd yn 2011), fel cylch blynyddol i gryfhau'r cydlyniad rhwng polisïau economaidd ar lefel yr UE ac Aelod-wladwriaethau, drwy gyflwyno Arolwg Twf Blynyddol i lywio'r Rhaglenni Sefydlogrwydd a Thwf/Rhaglenni Diwygio Cenedlaethol Aelod-wladwriaethau, a'r

---

[9] Gweler http://europa.eu/rapid/press-release_IP-13-217_en.htm
[10] Gweler gwefan Senedd Ewrop

argymhellion dilynol sy'n benodol i wledydd a chanllawiau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Ewropeaidd. Mae'r cynigion deddfwriaethol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 hefyd wedi ceisio gwneud cyswllt uniongyrchol rhwng y cylch polisi economaidd hwn: drwy gyflwyno amodoldeb macro-economaidd, a'r cyswllt rhwng blaenoriaethau rhaglenni ac argymhellion perthnasol sy'n benodol i wledydd.

Cymerwyd camau pellach i gryfhau'r broses gydlynu hon mewn disgyblaeth gyllidebol a gwneud penderfyniadau drwy'r hyn a elwir yn Gytundeb Compact Ariannol (cytunwyd arno fel 'cytundeb rhyngwladol' ym mis Rhagfyr 2011 a chafodd ei arwyddo'n ddiweddarach gan 25 o Aelod-wladwriaethau – ni wnaeth y DU a'r Weriniaeth Siec ei arwyddo) a'r hyn a elwir yn ddeddfwriaeth Pecyn Chwech a Phecyn Dau (sy'n cwmpasu gwyliadwriaeth, cyflwyno toriadau cyllideb, alinio cylchoedd cynllunio cyllidebol yn gryfach, ac ati.)[11] Yn sgîl y Cytundeb Compact Ariannol cafwyd Mecanwaith Sefydlogrwydd Ewropeaidd parhaol (daeth i rym ym mis Medi 2012), sy'n disodli'r ddau fecanwaith a gyflwynwyd dros dro yn ystod yr argyfwng i ddarparu cyfleusterau achub posibl i Aelod-wladwriaethau mewn argyfwng.

Ym mis Mehefin 2012, rhoddodd y Cyngor Ewropeaidd fandad i'r Comisiwn Ewropeaidd gyflwyno cynigion ar gyfer 'Undeb Bancio' i fynd i'r afael â phedwar prif faes, fel blaenoriaeth allweddol:

- Mecanwaith Goruchwylio Unigol ar gyfer sector bancio'r UE: cafwyd cytundeb ar hyn gan y Cyngor a Senedd Ewrop (Mawrth 2013), gyda Banc Canolog Ewrop i wneud y gwaith. Mae creu'r Mecanwaith Goruchwylio Unigol yn rhag-amod er mwyn gallu defnyddio'r Mecanwaith Sefydlogrwydd Ewropeaidd.
- Gofynion cyfalaf banc (pecyn CRD4): cafwyd cytundeb gyda Senedd Ewrop ym mis Mawrth 2013.
- Cynlluniau penderfyniadau banc a chynlluniau gwarantu adneuon.
- Mecanwaith penderfyniad unigol: cynigion y bwriedir eu gwneud yn ystod haf 2013.

Yn ogystal â'r uchod, cymerir mesurau pellach i gryfhau'r undeb economaidd ac ariannol (EMU) yr UE, gyda'r Cyngor Ewropeaidd yn cael mandad i wneud gwaith i ddatblygu 'map ffordd' i integreiddio'r EMU (gyda'r Undeb Bancio yn elfen graidd o hyn) dros y 18 mis nesaf ac ar ôl hynny.

Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, Herman Van Rompuy, oedd yn arwain y gwaith hwn, gan lunio adroddiad y 'pedwar' llywydd (ynghyd ag Arlywyddion y Comisiwn Ewropeaidd[12], Banc Canolog Ewrop ac Eurogroup) i Uwchgynhadledd yr UE ym mis Rhagfyr 2012, gydag arweinwyr yr UE yn cytuno ar gasgliadau'r map ffordd yn y cyfarfod hwn[13]. Mae'r casgliadau

---

[11] Gweler gwefan y Comisiwn Ewropeaidd i gael esboniad o'r Cytundeb Pecyn Chwech, Pecyn Dau a'r Cytundeb Compact Ariannol.

[12] Cyflwynodd y Comisiwn Ewropeaidd **'Glasbrint ar gyfer Undeb Economaidd ac Ariannol dwfn a gwirioneddol' ym mis Tachwedd 2012**.

[13] **Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd 14 Rhagfyr 2012**. Gweler hefyd **dudalennau'**r Cyngor Ewropeaidd ar lywodraethu economaidd.

ym mis Rhagfyr 2012 yn amlinellu nifer o feysydd sydd angen eu hystyried ymhellach yn ystod cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mehefin 2013:[14]

> "… a number of other important issues will be further examined by the June 2013 European Council, concerning the coordination of national reforms, the social dimension of EMU, the feasibility and modalities of mutually agreed contracts for competitiveness and growth, and solidarity mechanisms and measures to promote the deepening of the Single Market and to protect its integrity. Throughout this process, democratic legitimacy and accountability will be ensured."

Mae'r ffocws o ran cyfreithlondeb ac atebolrwydd democrataidd yn pwysleisio un o'r tensiynau parhaus rhwng cryfhau rheolaeth ganolog a'r cyfeiriad ynghylch polisi economaidd a chyllidebu, a pharchu sofraniaeth genedlaethol.

Wrth ystyried 'cyfreithlondeb ac atebolrwydd democrataidd' mae casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd yn cyfeirio'n benodol at rôl 'seneddau cenedlaethol' (h.y. seneddau Aelod-wladwriaethau – Dau Dŷ'r Senedd yn y DU) a Senedd Ewrop. Nid yw cyfrifoldebau cyllidebol a rolau is-wladwriaethau wedi bod yn amlwg yn y trafodaethau hyn hyd yma, ac ni wnaed cyfeiriad at seneddau is-wladwriaethau yng nghasgliadau'r Cyngor Ewropeaidd (er y gellid dadlau bod dewis y geiriau a nodir yn y dyfyniad isod – h.y. 'their parliaments' – yn amwys ac y gallai gynnwys seneddau is-wladwriaethau):

> "…At national level, moves towards further integration of the fiscal and economic policy frameworks would require that Member States ensure the appropriate involvement of their parliaments [ychwanegwyd ffont trwm]. Further integration of policy making and greater pooling of competences must be accompanied by a commensurate involvement of the European Parliament. New mechanisms increasing the level of cooperation between national parliaments and the European Parliament, in line with Article 13 of the TSCG [Treaty on Stability and Growth in the Eurozone] and Protocol No 1 to the Treaties, can contribute to this process. The European Parliament and national parliaments will determine together the organisation and promotion of a conference of their representatives to discuss EMU related issues…" (paragraff 14, tudalen 5, Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd 14 Rhagfyr 2012),

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ddau gyfathrebiad ym mis Mawrth (fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mehefin) ar yr undeb economaidd ac ariannol[15]:

- Mae cyfathrebiad ar gydlyniant cyn y digwyddiad o gynlluniau ar gyfer diwygiadau polisi economaidd mawr yn cynnwys opsiynau ar sut i drefnu trafodaethau ar lefel yr UE ar ddiwygiadau polisi economaidd ar raddfa fawr yn yr Aelod-wladwriaethau cyn y gwneir penderfyniadau terfynol yn genedlaethol.
- Mae cyfathrebiad ar Adnodd Cydgyfeirio a Chystadleurwydd (CCI) yn nodi barn ar gyfer dau adnodd: trefniadau cytundebol i Aelod-wladwriaethau gynnal diwygiadau penodol a chymorth ariannol i helpu Aelod-wladwriaethau i weithredu'r diwygiadau hyn.

[14] Gweler **Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd 13 Mawrth 2013**
[15] Gweler gwefan y Comisiwn Ewropeaidd

Ystyrir fod y rhain, mewn ffordd dawel, yn codi'r cwestiwn a ddylid cyflwyno 'cyllideb Ardal yr Ewro' ar ryw adeg yn y dyfodol. Roedd yn fater a godwyd yn ystod yr hydref ond a fu'n dawel ers hynny.

## 6. Caffael Cyhoeddus

Mae'r Cyngor, Senedd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd yn cymryd rhan mewn trafodaethau tairochrog ar hyn o bryd ynghylch moderneiddio cyfarwyddebau caffael cyhoeddus (a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar ddechrau 2011). Mae hyn yn dilyn cytundeb ar safbwynt cyffredin Cyngor y Gweinidogion ym mis Rhagfyr 2012, a Senedd Ewrop yn mabwysiadu ei mandad ar gyfer trafodaethau tairochrog ym mis Ionawr 2013.

Mae'r negodwyr yn gweithio tuag at gyrraedd cytundeb gwleidyddol yn y trafodaethau tairochrog erbyn diwedd Llywyddiaeth Iwerddon o'r UE i baratoi'r ffordd ar gyfer y darlleniad cyntaf yn Senedd Ewrop ym mis Medi. Roedd y testunau drafft gwreiddiol yn cynnig cyfnod trosi o 18 mis, ond mae'r Cyngor wedi gwthio i gael ymestyn hyn i 24 mis o fabwysiadu'r ddeddfwriaeth ar lefel yr UE, er bod Llywodraeth y DU yn ystyried y cwestiwn a ddylid gweithredu'r Cyfarwyddebau yn gynharach na'r gofyniad hwn o ddwy flynedd.

Un o'r meysydd sy'n peri pryder i lywodraeth leol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (a Chyngor Bwrdeistrefi a Rhanbarthau Ewrop (CEMR) – rhwydwaith yr UE ar gyfer cymdeithasau awdurdodau lleol) yw'r gwahaniaeth barn rhwng y Cyngor a'r Senedd ar y meini prawf dyfarnu ar gyfer tendrau (Erthygl 66 o'r gyfarwyddeb ddrafft). Mae'r Cyngor am barhau â'r rheolau presennol, sy'n defnyddio'r meini prawf cost isaf neu'n defnyddio 'MEAT'[16] (y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd neu'r 'most economically advantageous tender' – sy'n galluogi cynnwys ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol yn y meini prawf), ond mae Senedd Ewrop am ddefnyddio MEAT yn llwyr.

Maes arall sy'n peri pryder i lywodraeth leol yw'r cynnig i gael gwared ar y gwahaniaethau rhwng gwasanaethau A a B. Gan dderbyn bod y gwahaniaethau hyn yn debygol o gael eu gwaredu, maent yn gwthio am drothwyon uwch a llai o ofynion hysbysebu ar gyfer contractau gwasanaethau cymdeithasol fel ffordd o wneud y dull newydd yn fwy ymarferol.

Mae pryderon i'w datrys o hyd ynghylch a yw tendro ar-lein yn orfodol yn ogystal â rheolau technegol yn llywodraethu meini prawf ar gyfer rhannu tendrau mawr yn rhestrau swmp a rheolau ynghylch busnesau bach a chanolig yn cymryd rhan mewn tendrau.

Mewn menter gysylltiedig, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu cyhoeddi cynigion deddfwriaethol (disgwylir ym mis Mehefin 2013) ar wneud e-anfonebu mewn caffael cyhoeddus yn orfodol. Y syniad y tu ôl i'r fenter hon yw helpu i hwyluso'r gwaith o weithredu'r Farchnad Fewnol drwy hyrwyddo'r defnydd o e-anfonebu B2G yn y sector cyhoeddus a gwella'r gallu i ryngweithio systemau e-anfonebu cenedlaethol. Mae hefyd wedi'i hanelu at helpu i leihau costau gweithredu mentrau a chostau caffael awdurdodau cyhoeddus.

---

[16] Gweler y diffiniad o feini prawf MEAT ar wefan Procureweb (Menter caffael addysg uwch ac addysg bellach yn y DU)

## 7. Datblygiadau eraill a gynlluniwyd ar gyfer 2013 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Mae'r adran hon yn cyfeirio'n gyflym at y cynigion a'r mentrau eraill a nodwyd yn rhaglen waith dreigl y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2013 sydd fwyaf perthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes.

Mae'r rhain wedi'u cynnwys er gwybodaeth, ac er mwyn i'r Pwyllgor eu hystyried wrth iddo gynllunio ei flaenraglen waith ar gyfer gweddill 2013.

- Fframwaith yr UE ar gyfer Cynlluniau Symudedd Trefol Cynaliadwy (Pecyn Symudedd Trefol): Ceisio darparu rheolau a gweithdrefnau cyffredin yn ymwneud â phenderfyniadau symudedd trefol strategol i ddinasoedd:
    - Gwneud yn siŵr bod yr adnoddau a ddefnyddir yn lleol yn cyd-fynd â'i gilydd yn ddigonol er mwyn cael ffrwd effeithlon o nwyddau a phobl tra'n cyflawni amcanion lleol, cenedlaethol ac UE
    - Cadarnhau'r elfennau hanfodol i'w cynnwys mewn Cynlluniau Symudedd Trefol Cynaliadwy a phenderfynu ar brosesau asesu/dilysu priodol
    - Sefydlu fframwaith gweithredol i sicrhau cysondeb gydag amcanion polisi'r UE.
- Pris teg ac effeithlon ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy (Pecyn Marchnad Ffordd Fewnol): Bydd y fenter yn hyrwyddo defnydd mwy systematig o godi arian yn ymwneud â phellter gyda ffyrdd i adlewyrchu seilwaith a chostau allanol yn seiliedig ar egwyddorion talu yn ymwneud â llygredd a thalu yn ymwneud â defnydd. Bydd yn ymchwilio i gyflwyno system codi tâl cyffredin fesul cam i lorïau a allai ddisodli'r taliadau presennol sy'n seiliedig ar amser ledled yr UE (Eurovignette a 'vignettes' cenedlaethol) ac, o bosibl, taliadau eraill (fel trethi cerbyd).
- Canllawiau, Fframweithiau a Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol yr UE: disgwylir nifer o gyhoeddiadau gan y Comisiwn Ewropeaidd yn ystod 2013 gan gynnwys:
    - Canllawiau ar gymorth rhanbarthol cenedlaethol ar gyfer 2014-2020 (5 Mehefin 2013)
    - Canllawiau cymunedol ar gymorth gwladwriaethol i hyrwyddo buddsoddiadau cyfalaf risg ymysg busnesau bach a chanolig (Rhagfyr 2013)
    - Fframwaith Cymunedol ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd (Tachwedd 2013)
    - Adolygiad o'r Canllawiau Cymunedol ar ariannu meysydd awyr a chymorth dechrau busnes i gwmnïau hedfan sy'n hedfan o feysydd awyr rhanbarthol (4ydd chwarter 2013)
    - Adolygiad o'r Canllawiau Cymunedol ar Gymorth Gwladwriaethol ar gyfer diogelu'r amgylchedd (4ydd chwarter 2013).
- Polisi Porthladdoedd yr UE (disgwylir 21 Mai 2013): Bydd y cynigion hyn yn canolbwyntio'n gryf ar weithgareddau ymchwil ac arloesedd porthladdoedd yn yr UE.

- Fframwaith ar gyfer rheoli a datrys argyfyngau ar gyfer sefydliadau ariannol heblaw banciau (Tachwedd 2013): Nod y fenter yw sicrhau y gellir datrys sefydliadau ariannol nad ydynt yn fanciau yn effeithiol heb achosi effaith systemig.
- **Gwaith dilynol posibl i'r Papur Gwyrdd: Ariannu'r economi Ewropeaidd yn yr** hirdymor (Medi 2013)
- Cyfathrebiad ar addysg uwch Ewropeaidd yn y byd (Mehefin 2013)
- Cyfathrebiad ar Arolwg Twf Blynyddol 2014 (4ydd chwarter 2013)
- Cyfathrebiad ar Ddatgloi y Farchnad Unigol ar gyfer Cynnyrch Gwyrdd (2ail chwarter 2013)